

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Cymunedau

Dyddiad: 17 Hydref 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 24 HYDREF 2024 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau I ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 5 Med 2024 (copi ynghlwm).

5 ADNODDAU YCHWANEGOL SYDD EU HANGEN AR GYFER Y GWASANAETH AILGYLCHU TROLIBOCS WYTHNOSOL NEWYDD A SWYDDOGAETHAU CASGLU GWASTRAFF CYSYLLTIEDIG

(Tudalennau 15 - 48)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Amgylchedd a'r Economi a Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (copi'n amgaeëdig) i alluogi'r Pwyllgor i graffu ar y cynnig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 1 Hydref 2024.

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 49 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglan gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Karen Anne Edwards (Is-
Gadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker
James Elson
Martyn Hogg
Carol Holliday
Brian Jones

Delyth Jones
James May
Merfyn Parry
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy fideo gynadledda ddydd Iau, 5 Medi 2024 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Karen Edwards, Jon Harland, Carol Holliday, Brian Jones, Delyth Jones, Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW); Pennaeth Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG); Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL); Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaeth Cymorth Cymunedol (NJ); Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ); Swyddog Arweiniol - Coed a Choetiroedd (TH); Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth (HR); Rheolwr yr Uned Waith a Gwasanaethau Stryd (AC); Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E); Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd (JH); Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni (RL); Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd (PJ); Cydlynnydd Craffu (KE); Gweinyddwr Pwyllgorau/Lletya (ED); a Gweinyddwr Pwyllgorau/Cofnodion (SLW);

Arsylwyr – Y Cyngorwyr Joan Butterfield a Jeanette Chamberlain-Jones. Pauline Edwards, Huw Hilditch-Roberts, Gareth Sandilands, Andrea Tomlin ac Eryl Williams.

Roedd Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cyngorydd Rhys Thomas yn bresennol ar gyfer eitem 8 ar y rhaglen.

Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cyngorydd Barry Mellor yn bresennol ar gyfer eitemau 6, 7 a 9 ar y rhaglen.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Michelle Blakeley-Walker, James Elson a Merfyn Parry.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen - Diweddariad ar Ddarpariaeth Mewnol Un Llwybr Mynediad at Dai (ULIMaD) - gan ei bod ar restr ULIMaD.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Huw Williams am enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd newydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer y flwyddyn 2024-2025.

Cynigiodd y Cynghorydd Huw Williams y Cynghorydd Karen Edwards ac eiliodd y Cynghorydd Cheryl Williams.

Ni chafwyd rhagor o enwebiadau.

Cadarnhaodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol eu cytundeb i benodi'r Cynghorydd Karen Edwards.

Diolchodd y Cynghorydd Edwards i bawb am bleidleisio iddi fod yn Is-Gadeirydd.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Karen Edwards yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau am y flwyddyn 2024-2025.

4 MATERION BRYG Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Mai 2024.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mai 2024 fel cofnod cywir.

Ar y pwynt hwn, newidiwyd trefn yr Eitemau ar y Rhaglen.

6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y DDARPARIAETH FEWNOL UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI (ULIMaD)

Roedd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ynghyd â Phennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Phennaeth Tai a Chymunedau yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarpariaeth Fewnol ULIMaD.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a rhoi cyfle i'r aelodau archwilio effeithlonrwydd y gofrestr ULIMaD yn dilyn ail-ddylunio darpariaeth y gwasanaeth yn 2023.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Nigel Jones i'r Pwyllgor bod y gwasanaeth wedi dod yn ôl yn fewnol ym mis Ebrill 2023. Roedd ULIMaD Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, tai cymdeithasol a thai cymunedol, ond Sir Ddinbych oedd yn gyfrifol am gadw'r gofrestr.

Roedd y newidiadau mewn systemau TGCh wedi oedi mynediad at ddata am gyfnod sylweddol i ddechrau. Nid oedd hyn dan reolaeth Cyngor Sir Ddinbych gan mai

ymgynghorwyr meddalwedd oedd yn gweithio ar y broblem, ac yn y pen draw, cafodd ei ddatrys.

Roedd y gwasanaeth bellach yn rhedeg yn eithriadol o dda ac roeddem yn cyrraedd y targed o 28 diwrnod rhwng cais ac asesiad. Mae hyn wedi cymryd 3-4 mis yn y gorffennol.

Prif fantais gweithio'n fewnol oedd gallu cynnal adolygiadau ar amser a chynnal y gofrestr a'i chadw'n gyfredol. Byddai pob achos yn cael ei adolygu bob chwe mis a chysylltir â'r preswlydd i weld os oedd newid wedi bod i'w hamgylchiadau.

Cafwyd mwy o ddatblygiadau, un oedd y gofrestr tai arbenigol. Eleni, daethpwyd o hyd i 9 eiddo arbenigol, gwelliant mawr o'r blynyddoedd blaenorol.

Bellach, roedd Un Llwybr Mynediad at Dai yn rhan o'r gwasanaeth digartrefedd ac roedd llawer o gydlyniad yn y gwasanaeth.

Cadarnhawyd bod y bartneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol a Landlordiaid Cymunedol wedi cael ei ddangos fel arfer gorau.

Roedd y broses newydd yn darparu taith well i'r cwsmer ac yn gallu dynodi digartrefedd yn gynt. O safbwynt y cwsmer, roedd yn broses fwy llyfn.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Chymunedau, cyn sefydlu'r ULIMaD, roedd gan bob Cyngor restr tai, a bellach, gyda'r llwybr mynediad, y prif beth i Gyngor Sir Ddinbych oedd defnyddio dull o atal digartrefedd.

Os bydd y ffrydiau ariannu yn parhau fel y maent ar hyn o bryd, byddai'r pwysau'n cael eu bodloni yn y dyfodol.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu gwaith ar yr Un Llwybr Mynediad at Dai.

PENDERFYNWYD y gall y Pwyllgor Craffu Cymunedau fod yn dawel eu meddwl bod y gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai yn perfformio'n dda ar ôl ail-ddylunio darpariaeth y gwasanaeth a'i fod yn bodloni'r disgwyliadau a amlinellwyd ar adeg y penderfyniad i gymryd y gwasanaeth yn ôl gan y cyn-ddarparwr wedi'i gomisiynu, Cyngor Sir y Fflint.

7 CYNNAL A CHADW A RHEOLI COED

Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ynghyd â'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, y Swyddog Arweiniol - Coed a Choetiroedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth a Rheolwr yr Uned Waith a Gwasanaethau Stryd yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar Gynnal a Chadw a Rheoli Coed.

Cyflwynodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorydd Barry Mellor adroddiad i helpu'r Aelodau ddeall sut y mae coed CSDd yn cael eu rheoli ar draws yr awdurdod, o fewn cyd-destun pob maes gwasanaeth.

Fel perchennog tir, mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, bod yr holl goed ar ei dir yn cael eu cadw mewn cyflwr derbyniol ac nad ydynt yn achosi perygl afresymol i bobl nac eiddo.

Roedd y gwaith i ymateb i'r Clefyd Coed Ynn wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Crëwyd tîm o Swyddogion Coed yn 2020 i ddelio â'r clefyd coed ynn. Bu'r tîm yn gweithio gyda phob adran oedd â choed yn eu portffolio e.e. cynllunio, gwasanaethau stryd a gwaith yn ymwneud â choed a warchodir, wrth weithio tuag at y polisi oedd ynghlwm â'r adroddiad.

Roedd arolygon coed wedi cael eu cynnal a gwnaed gwaith sylweddol yn y gobaith o achub cymaint o goed â phosibl.

Mae coed yn elfen allweddol yn y gwaith o gyflawni Sir Ddinbych sy'n Fwy Gwyrdd a Chyngor Di-garbon Net ac Colegol gadarnhaol erbyn 2030. Bydd yr asedau coed presennol yn cael eu rheoli a'u datblygu'n briodol i'n helpu i gyflawni'r nodau hyn.

Mae rheoli adnoddau wedi bod yn her erioed, ond gwnaed arbedion yn y gwasanaeth dros y blynyddoedd ac roeddent yn cael eu hadolygu'n gyson. Cadarnhawyd bod digon o adnoddau, yn enwedig i ymdrin â phroblem y clefyd coed ynn.

Holwyd am berchnogaeth coed ac os oedd hynny'n peri problemau. Ymatebodd y swyddogion bod y gwasanaeth Priffyrdd hefyd yn ymdrin â choed mewn ardaloedd trefol y tu allan i'r 30mya. Roedd swyddogion y Gwasanaethau Stryd yn cynnal archwiliadau diogelwch ar y priffyrdd. Dan y Ddeddf Priffyrdd, roedd gan y Cyngor ddyletswydd gofal i gynnal archwiliadau. Mae'r bartneriaeth rhwng y ddau wasanaeth yn gweithio'n hynod o dda.

Fel rhan o'r prosiect Clefyd Coed Ynn, mae cynnydd wedi'i wneud i gysylltu â pherchnogion tir i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd gofal i ymateb i broblemau. Os oedd problemau oherwydd difrod yn dilyn storm neu goed ar y briffordd, yna byddem yn cysylltu â'r preswylwyr i ymdrin â'r perygl. Yn anffodus, roedd rhywfaint o ôl-groniad o waith gan fod y prif bwyslais wedi bod ar y Clefyd Coed Ynn. Felly, roedd y Strategaeth yn cael ei chroesawu gan fod angen cael ffordd benodol ymlaen.

Os oedd problemau â choed ar dir ysgolion, roedd cefnogaeth ar waith iddynt gan nad oedd ganddynt yr arbenigedd i ddelio â materion o'r fath. Roedd y gwasanaeth mewn cysylltiad ag Addysg ac Iechyd a Diogelwch.

Yn y gorffennol, y gyllideb oedd y broblem fwyaf, oedd yn caniatáu i swyddogion ganolbwyntio ar sail iechyd a diogelwch yn unig. Byddai'r Strategaeth yn gosod y ffordd ymlaen o ran sut mae'r gwasanaethau'n gweithio ac i ddefnyddio adnoddau'n well ac mewn ffordd fwy penodol.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn rhoi gwybod i aelodau lleol pan fyddai gwaith cynnal a chadw coed yn digwydd yn eu Wardiau.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

8 RHAGLEN CYNNAL A CHADW GRIDIAU A GYLIAU PRIFFYRDD

Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, ynghyd â'r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd yn bresennol i gyflwyno adroddiad ar y rhaglen cynnal a chadw Gridiau a Gyliau Priffyrdd.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol, Barry Mellor yr adroddiad i helpu'r Aelodau ddeall sut mae dyletswyddau statudol y Cyngor o dan y Ddeddf Priffyrdd a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn cael eu bodloni o ran rheoli dŵr wyneb drwy ein gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith draenio priffyrdd a cheuffosydd perygl llifogydd hanfodol, er mwyn sicrhau bod y priffyrdd wedi'u draenio'n dda ac felly'n ddiogel a bod eiddo yn cael eu hamddiffyn yn ystod cyfnodau o stormydd.

Dywedodd yr aelodau mai dail oedd yn cau'r gyliau'n bennaf. Eglurodd y Swyddog Arweiniol eu bod yn cael adroddiadau bod gyliau wedi cau yn aml, ond mai dim ond dail oedd yn achosi'r broblem dros dro - nid oedd yr adnoddau oedd eu hangen i glirio'r rhain yr un fath â gyliau wedi cau go iawn. Byddai adroddiadau cywir am y mater yn atal oedi wrth ymateb. Holwyd sut y gellid gwneud yn siŵr bod y wybodaeth gywir yn cael ei chasglu i sicrhau bod yr adnoddau cywir yn cael eu hanfon i'r ardal. Hefyd, sut i godi ymwybyddiaeth mewn Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned.

Ymatebodd y Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd mai capasiti'r draen oedd y broblem weithiau, os oedd glaw mawr sydyn, a byddai'r gyli'n clirio ei hun weithiau. Y ffordd ymlaen fyddai addysgu'r cyhoedd, Cyngorwyr a Chyngorau Dinas, Tref a Chymuned gan y byddai hynny'n helpu i reoli adnoddau, a byddai hyn yn cael ei drafod yn y dyfodol.

Yn ystod y trafodaethau codwyd y pwyntiau canlynol –

- (i) Pa mor sylweddol oedd y dŵr oedd yn rhedeg o eiddo oedd wedi palmentu dros eu gerddi ac arwyneb hydraiddd dreifiau? Hefyd, i ryw raddau, y gymuned amaethyddol ble roedd tir cywasgedig yn cyfrannu at broblemau llifogydd.
Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd tystiolaeth bendant am hyn ond ei fod yn batrwm i rai perchnogion tai. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru gan y cydnabyddir bod dŵr glaw ar gynnydd. Hefyd, roedd angen cysylltu gyda'r tîm Cynllunio ac adrannau eraill am drwyddedau ar gyfer datblygiadau newydd am y mater penodol hwn. Yn anffodus, roedd yn debygol o fod yn broblem barhaus os bydd y tueddiad presennol yn parhau.
- (ii) Dywedodd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant wrth y Pwyllgor bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda Dŵr Cymru am yr hen draeniau Fictoraidd yn y Rhyl gan mai dim ond hyn a hyn o ddŵr y gallant eu dal pan mae'n mynd i'r Llyn Morol ac yn cael i bwmpio i'r system storio yno.

Yn anffodus, nid oedd y tanc yn ddigon mawr i gymryd y dŵr i gyd os bydd yn bwrw'n drwm iawn. Pan fydd y tanc yn llawn, mae'n cael ei ollwng i'r môr, ond nid dim ond dŵr yw hyn, ond carthffosiaeth hefyd. Dywedwyd bod ar Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru angen dod at ei gilydd i weithio ar ateb i'r broblem hon.

- (iii) Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y gwaith yn cael ei wneud yn seiliedig ar risg ac y byddai'n dibynnu ar lefel y traffig ar ffordd benodol, ar y terfyn cyflymder a lefel y risg yn gysylltiedig â'r asesiad risg o ran pa mor gyflym y gallai'r tîm fynd i'r lleoliad ac ymdrin â'r mater. Os byddent yn cael adroddiad am broblem mewn ardal sy'n adnabyddus am ei llifogydd, ble roedd traffig trwm ac eiddo mewn perygl o lifogydd, byddai hynny'n brif flaenoriaeth. Os byddent yn cael adroddiad am broblem ar ffordd fwy gwledig ble nad oedd llawer o draffig a dim cofnod ei bod yn ardal sy'n cael llifogydd, byddai'n is ar yr asesiad risg.

Roedd gan yr Awdurdod ddau dancer, un ar gyfer gogledd y sir a'r llall ar gyfer y de. Roedd gofyn i'r ddau dancer yma fod yn gyfrifol am y sir gyfan, felly roedd yn rhaid defnyddio'r dull yn seiliedig ar risg ac asesu pob problem ar ei rhinweddau ei hun pan fydd y tîm yn cael gwybod amdani.

- (iv) Cododd y Cynghorydd Sandilands faterion yn ymwneud â gwter y Rhyl – Prestatyn, ond argymhellwyd y dylid ei drafod ymhellach y tu allan i'r cyfarfod gan nad cyfrifoldeb y Cyngor ydoedd. Yna gofynnodd y Cynghorydd Sandilands pa mor aml mae'r gridiau a gylïau yn cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y canghennau sy'n bwydo i gwter y Rhyl a Phrestatyn.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y gylïau'n cael eu hasesu yn dibynnu ar risg, felly, os oedd yn ardal sy'n adnabyddus o ran llifogydd, byddant yn cael eu harchwilio'n amlach nag ardaloedd ble na chafwyd adroddiadau o lifogydd yn y gorffennol. Roedd y gylïau y cyfeiriwyd atynt yn cael eu harchwilio ddwywaith y flwyddyn ond os oedd rhybudd oren neu felyn yn cael ei dderbyn, yna byddent yn cael eu harchwilio eto. Mae'n bosibl y byddant yn cael eu harchwilio dair gwaith y flwyddyn.

Cadarnhawyd bod y berthynas rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn un dda, ond yn anffodus, roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru broblemau ariannol hefyd ac yn ymdrin â nhw'n briodol.

- (v) Codwyd problemau â gridiau mewn rhai ardaloedd yn Ninbych a chadarnhawyd y byddai'r Pennaeth Gwasanaeth yn ymchwilio iddynt y tu allan i'r cyfarfod.

- (vi) Cadarnhawyd bod problem recriwtio gyrywyr cynnal a chadw'r gaeaf, ond bod hon yn broblem genedlaethol nid dim ond yn lleol. Felly, os oedd angen gwneud gwaith cynnal a chadw'r gaeaf ac os oedd gyrywyr yn brin, yna, defnyddiwyd gyrywyr y tanceri. Roedd yn rhaid rheoli hyn fel gwasanaeth ac roedd wedi bod yn broblem ers blynnyddoedd.

- (vii) Os byddai swyddogion a staff sy'n teithio'r sir yn rheolaidd yn deall sut rai yw'r problemau, gallent roi gwybod amdanynt, a byddai hynny'n ddefnyddiol iawn. Byddai hyn i gyd yn dibynnu ar addysgu, nid yn unig y staff, ond y cyhoedd hefyd, a chynghorwyr. Roedd llawer o waith angen ei wneud i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o beth oedd capasiti rhwydwaith ddraenio'r sir.

- (viii) Gwybodaeth am Gullysmart. Cadarnhawyd bod Gullysmart bellach ar waith ond y byddai'n cymryd amser i gasglu'r holl ddata. Yn anffodus, nid oeddent yn gallu rhoi amserlen ar gyfer cwblhau, ond roedd y gwaith wedi dechrau.
- (ix) Tywod yn achosi problemau ar ôl gwyntoedd cryfion iawn ar yr arfordir. Cadarnhawyd bod gan y gwasanaeth Priffyrdd a'r Gwasanaethau Stryd ddull ar y cyd o glirio tywod oddi ar y priffyrdd. Os oedd y tywod ar dir preifat, yna cyfrifoldeb y perchennog oedd rheoli'r risg.

Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth, a bod angen gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i addysgu'r cyhoedd, cynghorwyr a staff. Mynegwyd pryderon am yr agweddau cynllunio, yn enwedig datblygiadau newydd. Roedd angen ymdrin â rhai eitemau y tu allan i'r cyfarfod, yn eu fforymau perthnasol.

Penderfynwyd, yn amodol ar y sylwadau uchod,

- (i) *bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried yr adroddiad a chadarnhau eu bod yn hapus y defnyddir y dull cywir o ran cynnal a chadw draeniau priffyrdd, er mwyn cael yr aliniad gorau rhwng y risg i ddefnyddwyr a'r cyllid sydd ar gael, ac*
- (ii) *argymhellwyd cyfathrebu â'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i helpu i reoli adnoddau.*

Ar y pwynt hwn (11.30am), cafwyd egwyl o 5 munud.
Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.35am.

9 CYNLLUN YNNI ARDAL LEOL SIR DDINBYCH

Roedd Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ynghyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, y Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd a'r Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar Gynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad fel ffordd effeithiol i'r ardal leol gyfrannu at fodloni'r targed sero net cenedlaethol, yn ogystal â'i tharged sero net lleol.

Bydd Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych yn cyfrannu at thema Cynllun Corfforaethol 2022-2027 'Sir Ddinbych Wyrddach', gan ddarparu'n benodol gyfraniad cadarnhaol i'r Strategaeth Hinsawdd a Natur (2021/22-2029/30) drwy leihau allyriadau ar draws Cyngor Sir Ddinbych. Mae hefyd yn cefnogi thema 'Sir Ddinbych lewyrchus', gyda'r cyfle i ysgogi twf economaidd a thyfu economi werdd Sir Ddinbych.

Cyflwynodd Jane Hodgson, Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd gyflwyniad Powerpoint oedd yn amlinellu'r Cynllun.

Yn ystod trafodaeth, amlygwyd mai'r brif ran oedd addysg a rhannu gwybodaeth. Gofynnwyd i'r swyddogion beth allai Cyngor Sir Ddinbych ei wneud i hyrwyddo'r math yna o wybodaeth a ffyrdd y gallai pobl ddod o hyd iddo yn ogystal â deall y costau, gan fod canfyddiad y byddai'n ddrudd.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth fod cam gweithredu yn yr adroddiad ar y Cynllun sy'n sôn am gynlluniau a bod cefnogaeth ar gael i fusnesau a phreswylwyr. Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnal y cynllun ar ran Cyngor Sir Ddinbych. Yn anffodus, roedd yn gyfyngedig o ran adnoddau, ond roedd gwybodaeth, addysg a chefnogaeth ar gael i fusnesau a rhai preswylwyr Cyngor Sir Ddinbych. Roedd y Cam Gweithredu yn yr adroddiad LAEP ac adroddiadau LAEP y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac mae'n rhoi gwybodaeth y mae Cefnogwr yr Hinsawdd a'r cynllun gwaith Cyfathrebu y mae adran newid hinsawdd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych ac Awdurdodau Lleol eraill yn cael trafferth ymgysylltu â rhai busnesau preifat e.e. cwmnïau cludiant mawr a datblygwyr tai preifat. Gallent fod yn gweithio tuag at sero net carbon ond roedd angen i bawb gydweithio er mwyn bodloni cyflymdra'r newid yn y Cynllun.

Yna dywedodd y Cadeirydd, fel perchennog busnes bach ei hun, ei bod yn anodd gan fod cymhellion treth wedi cael eu dileu, roedd prisiau ynni yn codi ac roedd cost prynu cerbydau trydan yn ddrud iawn. Awgrymodd y dylid rhoi'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'n trosglwyddo hynny i Lywodraeth Cymru.

Roedd y Prif Weithredwr, Graham Boase ar Banel Strategaeth Hinsawdd Cymru Gyfan ac roedd fforwm y gellir cyflwyno'r pwynt a godwyd gan y Cadeirydd iddo.

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni wrth y Pwyllgor y bydd cyfleoedd yn codi'n fuan i fusnesau a chymunedau weithio gydag un o brosiectau'r fargen dwf o'r enw Ynni Lleol Clyfar. Byddai pecynnau a ariennir ar gael i fusnesau a chymunedau dros 18 mis i wneud rhai o'r astudiaethau dichonoldeb i edrych ar sut i gyflwyno rhai o'r prosiectau a amlinellwyd yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y byddai'n gweithio gyda'r tîm i edrych ar y ffordd orau o fanteisio ar hynny i Sir Ddinbych o fewn rhaglen waith ehangach Uchelgais Gogledd Cymru.

Holwyd y swyddogion os oeddent wedi ystyried defnyddio hydrogen gwyrdd o fewn cwmpas yr adroddiad yn hytrach na hydrogen glas neu lwyd. Ni fyddai hydrogen glas a llwyd yn cyfrannu at y targed sero net. Roedd y datganiad yn yr adroddiad yn cyfeirio at hydrogen ac nid pa hydrogen yn benodol.

Cadarnhawyd nad oedd y Cynllun yn nodi pa hydrogen.

Bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 24 Medi 2024 i'w gymeradwyo ac i sesiwn Briffio Aelodau yn hydref 2024.

Roedd disgwyl i'r cynllun gael ei adolygu ymhen pum mlynedd, wrth i ni nesáu at 2030 a therfyn amser targed sero carbon net y sector cyhoeddus.

PENDERFYNWYD –

- (i) *bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi ystyried y Prif Adroddiad CYAL a'r Adroddiad Technegol ac wedi rhoi adborth ar yr agweddau a gynhwysir ynddo.*
- (ii) *Roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 4) fel rhan o'i ystyriaethau.*

10 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Arweiniodd y Cydlynnydd Craffu yr Aelodau drwy Raglen Waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 24 Hydref 2024.

Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar 16 Medi 2024 a 25 Tachwedd 2024.

PENDERFYNWYD cytuno ar Raglen Waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Nid oedd adborth i'w dderbyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.07 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod	24 Hydref 2024
Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant
Pennaeth Gwasanaeth - Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd	
Awdur yr adroddiad	Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi
Teitl	Adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau casglu gwastraff cysylltiedig.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yma'n sôn am weithredu'r gwasanaeth ailgylchu trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau gwastraff cysylltiedig â pha addasiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu er mwyn sicrhau y gall y system newydd weithredu ar sylfaen gynaliadwy

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Galluogi'r Pwyllgor i graffu'r cynnig (ynghlwm i'r adroddiad hwn) a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 1 Hydref 2024.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig a pha argymhellion, os o gwbl, yr hoffai eu gwneud i'r Cabinet.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (ynghlwm i'r adroddiad) yn rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Cafodd yr adroddiad a'r atodiadau ynghlwm eu cyflwyno i'r Cabinet ar 1 Hydref 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynwyd bod y Cabinet:
- a) yn cymeradwyo £1.299m ychwanegol mewn gwariant cyfalaf er mwyn caffael cerbydau ailgylchu ychwanegol, wedi'i ariannu drwy fenthycyca darbodus;
 - b) yn cymeradwyo £1.067m ychwanegol o gostau refeniw er mwyn sicrhau y gall y newid gwasanaeth ddarparu fel y cynlluniwyd ar sylfaen gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y costau refeniw ar gyfer benthyca darbodus ar gyfer y cerbydau y cyfeirir atynt yn 3.1 yr adroddiad;
 - c) yn cytuno bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith heb gael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ac
 - d) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad A yr adroddiad) yn rhan o'i ystyriaethau.
- 4.2. Cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu bod yr eitem yn cael ei rhoi ar raglen Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 24 Hydref 2024 er mwyn galluogi'r Pwyllgor i archwilio'r cynnig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Mae'r model casglu gwastraff aelwydydd newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddau o'n themâu yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae'n brosiect penodol o fewn thema "Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd" gan y bydd yn helpu i gynyddu nifer a safon yr ailgylchu a gesglir o aelwydydd a chynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Trwy fabwysiadu technoleg carbon isel yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd a chynnwys isadeiledd ar gyfer fflyd ULEV, y nod yw lleihau effaith y gwasanaeth i gefnogi'r nodau corfforaethol ehangach o ran sero net erbyn 2030.
- 5.2. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi thema "Sir Ddinbych Ffyniannus" yn y Cynllun Corfforaethol sydd yn anelu i gefnogi adferiad economaidd, gan fanteisio ar gyfleoedd i alluogi preswylwyr i gael mynediad at gyflogaeth ac incwm da. Mae'r prosiect wedi arwain at greu swyddi ychwanegol o fewn y gwasanaeth gwastraff. Yn ychwanegol, mae adeiladu'r Depo newydd wedi arwain at greu ac amddiffyn nifer o swyddi sector

preifat yn lleol. Fe wnaethom ni weithio gyda 4 busnes lleol pwysig ar Barc Busnes Colomendy, Dinbych yn rhan o ddatblygu'r Depo newydd. Fe alluogodd hyn iddynt ddatgloi a datblygu tir cyflogaeth newydd i alluogi'r 4 busnes i aros yn Ninbych ac ehangu eu gweithrediadau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cost y rowndiau ychwanegol wedi'u manylu trwy gydol adroddiad y Cabinet.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Les wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau, ac mae ynghlwm yn **Atodiad A adroddiad y Cabinet**. Nid yw hyn wedi newid yn sylfaenol gan nad ydym ni'n newid egwyddorion y model arfaethedig, dim ond gwneud newidiadau ydym ni i sicrhau bod y model yn gweithio. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn gadarnhaol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fe fu sawl sesiwn Briff i Aelodau trwy gyfrwng Teams ers i'r gwasanaeth gael ei gyflwyno.

8.2. Cynhaliodd y Cyngor weithdy ddydd Iau 26 Medi.

8.3. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 24 Hydref.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Tra'n ymgymryd â phrosiectau newid strategol megis y rhain rydym ni'n darogan costau cysylltiedig yn seiliedig ar ragdybiaethau a'r wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd. Er gwybodaeth yn unig y mae'r rhagdybiaethau, a dim ond ar ôl iddynt gael eu cadarnhau y mae'r prosiect yn symud i'r cam gweithredu a darparu a bydd yn effeithio ar y costau a amcangyfrifwyd. Yn amlwg, ni chafodd y model newydd ei weithredu mewn modd y byddai unrhyw un ei eisiau. O ystyried y nifer o breswylwyr sydd wedi cael eu heffeithio bu'n rhaid i'r Cyngor weithredu i ddefnyddio adnoddau

ychwanegol rhwng mis Mehefin a mis Medi. Mae hi'n bwysig ein bod ni'n dysgu o'r profiad yma.

- 9.2. Mae'r adroddiad yn nodi'r adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol i ddiwygio'r llwybrau ailgylchu a sicrhau y gall y gwasanaeth weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.
- 9.3. Gall y costau yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r adroddiad (2024/25) gael eu hariannu o daliad un tro o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Fe fydd angen i'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen o 2025/26 ymlaen gael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn cael ei ddiweddarau a'i adrodd i'r Cabinet yn ei gyfarfod misol mis Hydref.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Mae yna risgiau ynghlwm ag unrhyw newid gwasanaeth o'r raddfa yma, fel yr ydym wedi'i weld ers 3 Mehefin, 2024. Y prif berygl yw bod cyflwyno set o lwybrau casglu wedi'u hail gydbwyso a'u hail ddylunio yn arwain at fethu casgliadau i ddechrau wrth i'r gwasanaeth ddod i arfer â'r newidiadau. Serch hynny, mae hyn yn cael ei liniaru gan faint o waith sydd wedi digwydd i sicrhau bod y llwybrau newydd yn seiliedig ar ragdybiaethau mwy realistig na dyluniad blaenorol y gwasanaeth, gan ddysgu o brofiad y system newydd sy'n weithredol ers 3 Mehefin.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Rhan II Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- 11.2. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972
- 11.3. a120 Deddf Llywodraeth Leol 1972
- 11.4. Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	1 Hydref 2024
Aelod Arweiniol	Y Cyngorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant
Awdur yr adroddiad	Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Teitl	Adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau casglu gwastraff cysylltiedig.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yma'n sôn am weithredu'r gwasanaeth ailgylchu trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau gwastraff cysylltiedig â pha addasiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu er mwyn sicrhau y gall y system newydd weithredu ar sylfaen gynaliadwy.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Mae angen penderfyniad i ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth trolibocs wythnosol newydd a swyddogaethau casglu cysylltiedig weithredu fel y rhagwelwyd.

3. Beth yw'r argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo £1.299m ychwanegol mewn gwariant cyfalaf er mwyn caffael cerbydau ailgylchu ychwanegol, wedi'i ariannu drwy fenthycu darbodus.

- 3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo £1.067m ychwanegol o gostau referniw er mwyn sicrhau y gall y newid gwasanaeth ddarparu fel y cynlluniwyd ar sylfaen gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys y costau referniw ar gyfer benthyca darbodus ar gyfer y cerbydau y cyfeirir atynt yn 3.1.
- 3.3. Bod y Cabinet yn cytuno bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith heb gael ei alw i mewn, yn unol ag adran 7.25 yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- 3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (**Atodiad 3**) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar 3 Mehefin 2024, cyflwynodd y Cyngor wasanaeth gwastraff/ailgylchu newydd. Cafodd y costau ar gyfer y newid gwasanaeth eu cymeradwyo'n wreiddiol ar 19 Rhagfyr 2018 ac yna cafodd ei adolygu eto gan y Cabinet ar 12 Ebrill 2022.
- 4.2. Yn sgil nifer o ffactorau amrywiol, dim ond amcangyfrif gorau y gall darogan megis y rhain fod i newidiadau gwasanaeth cymhleth. Dim ond pan fydd y newidiadau wedi cael eu gweithredu y gall yr amcangyfrifon hynny gael eu profi'n llawn. Mae'r newid gwasanaeth yma wedi bod yn y cyfnod cynllunio am fwy na 6 mlynedd, e.e. cyn penderfyniad gwreiddiol y Cabinet yn 2018, drwodd i'w weithredu yn 2024. Mae llawer wedi newid yn ystod y cyfnod yma, yn cynnwys elfennau amrywiol allweddol sy'n gysylltiedig â'r newid gwasanaeth yma (e.e. cynnydd mewn costau adeiladu, costau cerbydau, datblygu mwy o dai yn y Sir gan olygu bod angen gwasanaeth gwastraff ac ati).
- 4.3. Fe ddaeth hi'n amlwg yn fuan ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth newydd fod rhai o'r rhagdybiaethau yn anghywir. Y brif broblem oedd bod rhai o'r rowndiau ailgylchu dyddiol wedi cael eu dylunio a bod angen casglu o ormod o gartrefi. Roedd hyn yn golygu nad oedd sawl rownd y dydd yn cael ei gwblhau, gan arwain at fethu niferoedd uchel ac annerbyniol o gasgliadau.
- 4.4. Fe fydd yna adolygiad llawn o sut y cafodd y gwasanaeth ei chynllunio a'i gweithredu, a bydd yn cynnwys archwiliad o'r rhagdybiaethau oedd yn sail i ddylunio'r gwasanaeth newydd. Fe fydd aelodau etholedig a phreswylwyr yn rhan o'r adolygiad.

- 4.5. Yr unig ffordd o ddiwygio'r rhagdybiaeth ynglŷn â nifer yr aelwydydd fesul rownd yw drwy leihau nifer yr aelwydydd yn y rowndiau hynny sy'n cael eu heffeithio. Fe fydd hyn yn golygu bod angen cyflwyno rowndiau dyddiol ac adnoddau cysylltiedig ychwanegol.
- 4.6. Heb ymrwymo adnoddau ychwanegol, ni ellir darparu'r gwasanaeth newydd yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy ac fe fyddwn ni'n parhau i wario llawer mwy ar benderfyniadau tymor byr aneffeithiol o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod casgliadau sy'n cael eu methu yn cael eu lleihau/eu cywiro.
- 4.7. Mae'r penderfyniadau rheoli o ddydd i ddydd ers cyflwyno'r gwasanaeth newydd wedi canolbwyntio ar logi cerbydau ychwanegol, cynyddu staff asiantaeth, a defnyddio goramser staff presennol. Er bod hyn wedi bod yn gostus, ni fyddai peidio ymateb i'r problemau roedd ein preswylwyr yn eu hwynebu yn sgil nifer o gasgliadau a fethwyd wedi bod yn dderbyniol.
- 4.8. Er mwyn rhoi'r rowndiau gwastraff/ailgylchu newydd ar sail gynaliadwy, mae angen rowndiau ailgylchu ychwanegol. Cafodd y model gwreiddiol ei gyflwyno ar sail 20 rownd y dydd. Mae'r nifer o rowndiau ychwanegol sydd eu hangen yn amrywio o 6 i 8 rownd, yn dibynnu ar ddiwrnod yr wythnos.
- 4.9. Mae hyn yn golygu bod angen prynu 8 cerbyd ychwanegol ar gost cyfalaf o £1.299m a gyrwyr a llwythwyr ychwanegol i weithredu'r cerbydau. Fe fydd y costau cyfalaf yn cael eu hariannu drwy fenthycu darbodus (gweler y tabl isod), ond bydd cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf i gynorthwyo â'r gost o brynu'r cerbydau ychwanegol yma, a fyddai'n lleihau'r effaith referniw ar y Cyngor. Mae'r costau referniw sy'n gysylltiedig â'r rowndiau ychwanegol wedi'u nodi yn y tabl isod:

Costau	£m
Gweithwyr	0.697
Costau cerbydau (yn cynnwys benthyca darbodus)	0.370

Cyfanswm	1.067
----------	-------

- 4.10. Os caiff y gyllideb ychwanegol hon ei chymeradwyo, yna fe allwn ni gynllunio ar unwaith i weithredu'r newidiadau angenrheidiol, a gallwn gyflwyno'r rowndiau ychwanegol o fewn wythnosau ar ôl penderfyniad y Cabinet heddiw h.y. mae yna amser rhagarweiniol rhwng awdurdodi'r adnoddau ychwanegol a'r newidiadau'n digwydd yn ymarferol. Fe fyddai hyn yn sicrhau o dan amodau arferol y gall pob rownd gael ei gwblhau fel y'i cynlluniwyd.
- 4.11. Fe fydd y penderfyniad y mae'r adroddiad hwn yn ei geisio yn galluogi'r gwasanaeth gwastraff i weithredu'r llwybrau casglu gwastraff diwygiedig gan roi sylfaen fwy cynaliadwy i'r gwasanaeth a lleihau'r lefelau presennol o wariant. Mae hi'n bwysig bod y gwaith yma'n dechrau heb oedi. Dyna'r rheswm dros ofyn i'r Cabinet gadarnhau y bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith.
- 4.12. Yn ei dro bydd hyn yn caniatáu i adnoddau rheoli ganolbwyntio ar sicrhau bod ein casgliadau cysylltiedig eraill megis cynnyrch hylendid amsugol, gwastraff gwyrdd a gwastraff masnachol yn gallu cael ei weithredu fel y'i cynlluniwyd ac y gallwn ni adolygu ein casgliadau â chymorth a gwasanaethau casglu diwedd lôn. Gweler **Atodiad B** i ddarllen sylwadau am newidiadau i elfennau eraill y gwasanaeth gwastraff.
- 4.13. Rhwng cychwyn cyflwyno'r gwasanaeth ym mis Mehefin a diwedd mis Medi, rhagwelir mai'r costau ychwanegol fydd £640,000 (h.y. goramser, staff asiantaeth a llogi cerbydau).
- 4.14. Mae'r Cyngor yn rhan o Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a mis diwethaf, fe dderbyniodd ei gyfran o drefniant ail ariannu hir sefydlog. Mae hyn wedi arwain at daliad un tro o £1.2miliwn. Mae hwn yn brosiect cymhleth arall sy'n gysylltiedig â gwastraff, a thros amser fe wnaed llawer o ragdybiaethau amrywiol a newidiodd gan arwain at y taliad un tro yma. Fe fydd y cyllid yma'n cael ei ddefnyddio i wrthbwysu'r costau a gafwyd o ddydd i ddydd i ymateb i'r problemau gyda chyflwyno'r gwasanaeth a'r adnoddau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad yma ar gyfer 2024/25.

- 4.15. Fe fydd y gyllideb ychwanegol sydd ei hangen, h.y. y £1.067m o fis Ebrill 2025 angen ffurfio rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26.
- 4.16. Bydd cefnogi'r newid gwasanaeth fel hyn yn amddiffyn y Cyngor rhag pwysau cyllidebol yn y dyfodol, e.e. lleihau'r angen am staff asiantaeth, lleihau'r angen am oramser ac ati. Yn ogystal, dim ond parhau i gynyddu y bydd y gost o waredu ailgylchu cymysg, felly fe fydd y costau hyn yn cael eu hosgoi, h.y. y gost o waredu ein gwastraff cymysg yn 2023/24 oedd £1.1m o'i gymharu â £315,000 yn 2018/19.
- 4.17. Fe fydd y broses ddi-doli ar ymyl palmant hefyd yn ein galluogi i werthu'r deunydd ailgylchadwy a gesglir, ac felly yn cynyddu incwm. Mae'r farchnad hon yn anwadal, felly mae'n anodd darogan ac mae yna risg neu fantais ariannol posibl i'r gwasanaeth y tu hwnt i'n rheolaeth.
- 4.18. Fe ddylai'r newid gwasanaeth gynyddu ein cyfraddau ailgylchu ac felly lleihau'r perygl o ddirwyon posibl gan Lywodraeth Cymru am fethu â chyrraedd y gyfradd ailgylchu statudol o 70%, e.e. oni bai ein bod yn gwella ein cyfraddau ailgylchu fe allai'r ddirwy gan Lywodraeth Cymru fod tua £250,000 y flwyddyn.
- 4.19. Mae hwn yn faes gwasanaeth cymhleth gyda nifer o risgiau ariannol. Fe fydd costau ac incwm yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar rymoedd y farchnad ac elfennau amrywiol eraill. Mae angen i ni felly barhau i fonitro'r gyllideb a sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Fe ellir pigo hyn i fyny yn yr adroddiadau cyllid misol i'r Cabinet ac efallai y bydd angen adroddiad Cabinet ar wahân yn y dyfodol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Mae'r model casglu gwastraff aelwydydd newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddau o'n themâu yn ein Cynllun Corfforaethol. Mae'n brosiect penodol o fewn thema "Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd" gan y bydd yn helpu i gynyddu nifer a safon yr ailgylchu a gesglir o aelwydydd a chynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig. Trwy fabwysiadu technoleg carbon isel yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd a chynnwys isadeiledd ar gyfer fflyd ULEV, y nod yw lleihau

effaith y gwasanaeth i gefnogi'r nodau corfforaethol ehangach o ran sero net erbyn 2030.

